

ALLSUGNO GWACÁU Â LLAW

Taflen Gwybodaeth i Gleifion a Ffurflen Ganiatâd

Dewch â'r llyfryn hwn gyda chi

Nod y llyfryn gwybodaeth hwn yw rhoi'r holl fanylion y mae angen i chi eu gwybod am allsugno gwacáu â llaw (MVA) fel gweithred ar gyfer rheoli comesgoriad.

Mae'r weithred hon yn gofyn am eich caniatâd ffurfiol.

Ysgrifennwyd y llyfryn hwn i'ch galluogi i wneud penderfyniad gwybodus mewn perthynas â chytuno i'r weithred. Yng nghefn y llyfryn mae ffurflen ganiatâd.

Mae'r ffurflen ganiatâd yn ddogfen gyfreithiol felly darllenwch hi'n ofalus. Unwaith y byddwch wedi darllen a deall yr holl wybodaeth gan gynnwys y posibilrwydd o gymhlethdodau a'ch bod yn cytuno i gael y weithred, llofnodwch a dyddiwch y ffurflen gydsynio.

Fodd bynnag, os oes unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall neu os ydych yn dymuno ei drafod ymhellach, peidiwch â llofnodi'r ffurflen ond dewch â hi gyda chi a'i llofnodi ar ôl i chi siarad â Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol.

Beth yw Allsugno Gwacáu â Llaw (MVA)?

Mae MVA yn ddull o dynnu gweddillion beichiogrwydd o'r tu mewn i'r groth. Mae'n defnyddio sugno ysgafn o dan anesthetig lleol tra byddwch yn effro. Mae hwn yn ddewis amgen i gael anesthetig cyffredinol yn y theatr. Defnyddir y dull hwn i drin menywod a gafodd gamesgoriad lle mae meinwe beichiogrwydd yn cael ei adael ar ôl wedi'r comesgoriad. Mae hon yn weithred gofal dydd, a dylech fod yn ddigon da i fynd adref ar ôl y weithred.

Pwy sy'n addas ar gyfer y weithred hon?

Os ydych wedi cael

- Comesgoriad coll.
- Comesgoriad anghyflawn
- Dulliau rheoli meddygol aflwyddiannus yn achos comesgoriad.

Pwy na allai fod yn ymgeisydd addas ar gyfer y weithred hon?

- Methiant dulliau rheoli llawfeddygol blaenorol yn achos comesgoriad
- Beichiogrwydd molar - math annormal o feichiogrwydd

- Annormaleddau yn y groth
- Croth ffibrog o faint mawr > 12 wythnos
- Hanes blaenorol o lawdriniaeth i wddf y groth h.y. LLETZ
- Alergedd i anesthetig lleol
- Gorbryder difrifol
- Gwaedu gormodol
- Anallu i oddef archwiliad sbecwlwm.

Beth sy'n digwydd cyn y weithred?

Byddai angen i chi lofnodi'r ffurflen ganiatâd gwybodus. Mae profion gwaed sylfaenol yn cael eu cynnal. Byddwch yn derbyn presgripsiwn ar gyfer lladdwyr poen a thabled i feddalw gwddf y groth neu'r serfics, i'w gymryd 1 awr cyn y driniaeth.

Beth sy'n digwydd ar ddiwrnod y llawdriniaeth?

Gallwch fwyta ac yfed fel arfer. Bydd yn rhaid i chi gymryd y lladdwyr poen drwy'r geg a'r dabled feddalw serfigol o dan eich tafod. Mae'r olaf yn helpu i agor gwddf y groth a hwyluso'r weithred.

Beth sy'n digwydd yn ystod y weithred?

Byddwch gyda'r meddyg, nyrs a gweithiwr cymorth gofal iechyd yn yr ystafell weithredoedd. Gofynnir i chi orwedd ar y sofffa gyda'ch coesau mewn gwartholion. Yna byddwn yn mewnosod offeryn siâp tiwb (sbecwlwm) i mewn i'ch gwain. Bydd hyn yn aros yn ei le tra bydd y weithred yn mynd rhagddo. Bydd anesthetig lleol (chwistrelliad fferru) yn cael ei chwistrellu i mewn i wddf eich croth. Yna mae gwddf y groth yn cael ei ymestyn yn raddol. Yna mewnosodir tiwb sugno cul i'r groth i gael gwared ar y meinwe beichiogrwydd sy'n weddill. Efallai y byddwch chi'n clywed rhai synau oherwydd y gwaith sugno. Os hoffech i rywfaint o gerddoriaeth tawelu gael ei chwarae yn yr ystafell yn ystod y weithred, rhowch wybod i'r nyrs neu'r meddyg.

Wedi tynnu'r feinwe, efallai y cewch sgan uwchsain i wirio a yw'r meinwe beichiogrwydd wedi'i dynnu. Mae'r broses yn cymryd tua 20 munud.

A fydd y weithred yn eich brifo?

Mae'r chwistrelliad fferru a roddir i wddf eich croth yn lladdwr poen da iawn. Er y gallech deimlo rhywfaint o bwysedd, ni ddylech deimlo unrhyw boen. Os bydd poen yn parhau, byddwn yn atal y weithred ac yn cynnig opsiynau triniaeth amgen i chi.

Beth sy'n digwydd i feinwe'r beichiogrwydd wedi'i dynnu?

Os oeddech wedi cydsynio ar gyfer archwiliad microsgopig o'r meinwe beichiogrwydd, bydd y sampl yn cael ei hanfon i'r labordy ar gyfer profion pellach. Byddwn yn cysylltu

â chi gyda'r canlyniadau unwaith y bydd y canlyniadau'n barod. Fel arall, bydd yr ysbyty yn gwaredu'r holl feinweoedd beichiogrwydd yn sensitif.

Beth yw manteision y weithred?

- Mae anesthetig cyffredinol yn cael ei osgoi.
- Mae'n gyflymach sy'n osgoi aros i gamesgoriad digymell ddigwydd.
- Amser adfer cyflymach

Beth yw'r risgiau posibl?

Yn syth

- Anghysur
- Teimlo'n benysgafn neu'n chwil.
- Gwaedu gormodol sy'n gofyn am drallwysiad.
- Angen rhoi'r gorau i'r weithred rhag ofn y bydd sefyllfaoedd megis anhawster wrth ymestyn gwddf y groth neu os nad ydych yn gallu goddef y weithred.
- Colli ymwybyddiaeth (a elwir yn feddygol yn bwl fasofagol)
- Anaf i wddf y groth
- Tyllu'r groth, gyda'r angen posibl i berfformio llawdriniaeth twll clo (laparosgopi) i eithrio neu reoli unrhyw anafiadau mewnol.

Yn ddiweddarach

- Perygl y bydd rhywfaint o feinwe beichiogrwydd yn aros yn y groth, gan ofyn am weithred ailadroddus
- Haint, gan gyflwyno fel rhedlif drewllyd o'r wain, poen abdomenol is neu dwymyn.
- Gwaedu gormodol (trymach na'ch mislif), gan basio clotiau gwaed.

Beth sy'n digwydd ar ôl y weithred?

- Byddwn yn gofyn i chi aros hyd at 2 awr i wneud yn siŵr eich bod yn ddigon da i fynd adref.
- Gallwch ddisgwyl peth gwaedu o'r wain na ddylai fod yn fwy na'ch mislifoedd.
- Gellir rhoi gwrthfotigau yn seiliedig ar ein hasesiad o'ch risg o haint.
- Byddwn hefyd yn eich asesu chi ar gyfer eich risg o glotiau gwaed y gallai fod angen pigiadau teneuo gwaed ar eu cyfer.
- Os oes gennych grŵp gwaed Rhesus negyddol, byddwn yn cynnig pigiad Anti- D i chi.
- Fe allech ddychwelyd i waith 24-48 awr ar ôl y weithred.
- Dylech wneud prawf beichiogrwydd mewn 3 wythnos. Os yw'n bositif, cysylltwch â'r Uned Asesu Gynaegolegol Brys (EGAU) yn Ysbyty Prifysgol Y Faenor ar **01633493557**.

Pryd ddylech chi gysylltu â'r Uned Asesu Gynaegolegol Brys (EGAU)?

- Gwaedu gormodol, pasio clotiau
- Rhedlif drewllyd o'r wain
- Twymyn
- Prawf beichiogrwydd positif 3 wythnos ar ôl llawdriniaeth

Beth ddylech chi ystyried ar gyfer adferiad buan?

Osgoi nofio, tamponau, cael bàth neu gyfathrach rywiol am wythnos.

ATAL CENHEDLU

Os ydych yn dymuno cael coil MIRENA neu goil copr wedi'i fewnosod ar gyfer atal cenhedlu, gallwn wneud hyn i chi ar ddiwedd y weithred.

Os oes gennych unrhyw waedu trwm neu bryderon yn dilyn eich apwyntiad, cysylltwch â ni ar y rhifau canlynol:-

**Uned Triniaeth Ddydd yn Ysbyty Neville Hall- 8.00am – 4.00pm
01873 733239**

**Uned Asesu Gynaecolegol Brys
Ysbyty Prifysgol Y Faenor
01633 493557/493985**

Pwyntiau cyffredinol i'w cofio:-

- Os na allwch gadw'ch apwyntiad, hysbyswch yr Uned Triniaeth Ddydd yn Ysbyty Nevill Hall neu'r Uned Asesu Gynaecoleg Brys yn Ysbyty'r Faenor.
- Ein nod yw i chi gael eich gweld a'ch trin cyn gynted â phosibl ar ôl i chi gyrraedd. Fodd bynnag, mae'r Adran yn brysur iawn ac efallai y bydd oedi i'ch gweithred. Os bydd argyfyngau'n digwydd, bydd y cleifion hyn yn amlwg yn cael blaenoriaeth dros yr achosion sy'n llai brys.
- Ni all yr Ysbyty dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golli neu ddifrod i eiddo personol yn ystod eich cyfnod ar y safle hwn.

COFIWCH LOFNODI EICH FFURFLEN GANIATÂD YNG NGHEFN Y LLYFRYN A DOD Â HI GYDA CHI.

BYDD ANGEN I CHI DDOD Â RHYWUN GYDA CHI I FYND Â CHI ADREF AR ÔL Y WEITHRED.

Cyfeiriadau

1. Patient preferences, satisfaction, and resource use in office evacuation of early pregnancy failure. *Obstet Gynecol.* 2006
2. Manual vacuum aspiration: an outpatient alternative for surgical management of miscarriage. *The Obstetrician and Gynaecologist.* 2015
3. Manual versus electric vacuum aspiration for early first-trimester abortion: a controlled study of complication rates. *Obstet Gynecol* 200
4. Canllaw ar gyfer Allsugno Gwacáu â Llaw (MVA) fel Gweithred Claf Allanol i reoli comesgariad, BIPAB, Rhifyn 3, Gorffennaf 2023. (Guideline for Manual Vacuum Aspiration (MVA) as an Outpatient Procedure for management of miscarriage, ABUHB, Issue 3, July 2023

Dynodydd/label cleifion

Cytundeb cleifion i archwiliad neu driniaeth Gynaecoleg:

Enw'r weithred: Allsugno Gwacáu â Llaw

Datganiad Claf / Rhieni

Mae gennych hawl i newid eich meddwl ar unrhyw adeg, hyd yn oed ar ôl i chi lofnodi'r ffurflen hon.

Rwyf wedi darllen a deall y wybodaeth yn y llyfryn atodedig, gan gynnwys y manteision ac unrhyw risgiau.

Rwy'n cytuno i'r weithred a ddisgrifir yn y llyfryn hwn ac ar y ffurflen.

Rwy'n deall na allwch roi gwarant i mi y bydd unigolyn penodol yn cyflawni'r weithred. Fodd bynnag, bydd gan yr unigolyn brofiad priodol. Pan fydd hyfforddai'n perfformio'r archwiliad, bydd yn cael ei gynnal dan oruchwyliaeth ymarferydd cwbl gymwysedig.

Llofnod:

Enw (print):

Dyddiad:

Os hoffech ofyn unrhyw gwestiynau pellach, peidiwch â llofnodi'r ffurflen nawr. Dewch â hi gyda chi a gallwch ei llofnodi ar ôl i chi siarad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Cadarnhad o gydsyniad (i'w gwblhau gan weithiwr iechyd proffesiynol pan fydd y claf yn cael ei dderbyn ar gyfer y weithred, os yw'r claf/rhiant wedi llofnodi'r ffurflen ymlaen llaw)

Rwyf wedi cadarnhau bod y claf/rhiant yn deall yr hyn y mae'r weithred yn ei olygu, gan gynnwys y manteision ac unrhyw risgiau. Nid oes gan y claf unrhyw gwestiynau pellach ac mae'n dymuno i'r driniaeth fynd yn ei blaen.

Llofnod:

Dyddiad:

Enw (PRINT):

Teitl swydd:

Datganiad gweithiwr iechyd proffesiynol (i'w lenwi gan y gweithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth briodol am y weithred arfaethedig, fel y nodir mewn polisi cydsynio). Mewn ymateb i gais am ragor o wybodaeth, rwyf wedi egluro'r weithred i'r claf/rhiant. Yn benodol, eglurais:

Y manteision a fwriedir:

1. I drin camesgoriad

Risgiau sylweddol, anochel neu sy'n digwydd yn aml:

- **Yn syth**
- Poen ac anghysur
- Teimlo'n benysgafn neu'n chwil.
- Gwaedu gormodol sy'n gofyn am drallwysiad.
- Angen rhoi'r gorau i'r weithred rhag ofn y bydd sefyllfaoedd fel anhawster wrth ymestyn gwddf y groth neu os nad ydych yn gallu goddef y weithred oherwydd poen.
- Colli ymwybyddiaeth (a elwir yn feddygol yn bwl fasofagol)
- Anaf i wddf y groth
- Tyllu'r groth, gydag angen posibl i berfformio llawdriniaeth twll clo (laparosgopi) i eithrio neu reoli unrhyw anafiadau mewnol.
- Anaf i wddf y groth

Yn ddiweddarach

- Perygl y bydd rhywfaint o feinwe beichiogrwydd yn aros yn y groth, gan ofyn am weithred ailadroddus
- Haint, gan gyflwyno fel rhedlif drewllyd o'r wain, poen yn rhannau isaf yr abdomen neu dwymyn.
- Gwaedu gormodol (yn drymach na'ch mislif), pasio clotiau gwaed.

Rwyf hefyd wedi trafod yr hyn y mae'r weithred yn debygol o'i olygu, y manteision a risgiau unrhyw driniaethau amgen sydd ar gael (gan gynnwys dim triniaeth) ac unrhyw bryderon penodol gan y rhai sy'n cymryd rhan.

Llofnod:

Dyddiad:

Enw (PRINT):

Teitl swydd:

Datganiad dehonglydd (Ile bo'n briodol) Rwyf wedi dehongli'r wybodaeth uchod i'r claf/rhiant hyd eithaf fy ngallu ac mewn ffordd rwy'n credu y gall ei deall.

Llofnod: Dyddiad:

Enw (PRINT).....

Teitl swydd:

Dosbarthiad: COPI 1af: YSBYTY; 2IL COPI: CLAF

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol
Prifysgol Aneurin Bevan

' Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/This document is available in English'.

HyCoSy Proforma

Name:		D.O.B	
MRN:		Date	

Or insert patient addressograph above

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Pre Procedure Checklist

LMP					
Allergies	Yes <input type="checkbox"/>	No <input type="checkbox"/>			
Protected intercourse	Yes <input type="checkbox"/>	No <input type="checkbox"/>	Signed (pt.):		
Pregnancy test	Negative <input type="checkbox"/>		Signed (staff):		
Paracetamol 1g; Ibuprofen 400mcg (1 hour pre HyCoSy)	Yes <input type="checkbox"/>	No <input type="checkbox"/>	Time taken:		
Antibiotics taken	Yes <input type="checkbox"/>	No <input type="checkbox"/>			
Reason for HyCoSy					

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Baseline scan findings

Uterus size	X	X	MM	
Uterine orientation	Anteverted	Retroverted	Other	
Uterine appearance	Normal		Other:	
Comment				
Endometial thickness	ET (mm)			

Endometrial appearance	Normal		Other	
Comment				
Right ovary size	x	x	mm	Vol (mls)
Right ovary appearance	Normal	Accessible	Other:	AFC=
Comment				
Left ovary size	x	x	mm	Vol (mls)
Left ovary appearance	Normal	Accessible	Other:	AFC=
Comment				
Adnexae appearance	Normal	Other:		Comment:
POD	NAD	Free fluid	Comment:	
Procedure				
Cervix cannulation	Easy		Difficult (see comment)	
Comment				
Right fallopian tube	Fill seen		Spill seen	CD required
	No fill		No Spill	
Left fallopian tube	Fill seen		Spill seen	CD required
	No fill		No Spill	
Comment				
CONCLUSION				

Practitioners name							
WHO checklist complete		<input type="checkbox"/>	Signed:				
Post Procedure Checklist							
Swab count complete?		<input type="checkbox"/>	Signed:			Signed :	
Follow up required?							
Further Information (including advice given)							
Staff Name:				Signature:			